**Cysylltiad**

Mae Nerys wedi bod wrthi drwy'r dydd, a sawl dydd cyn heddiw yn paratoi, yn cwcio a chlirio a chlirio mwy. Mae Nel yn gwneud job wael ar guddio'r ffaith bod ei phen hi'n un dolur mawr, a bod *mulled wine* tafarn y Llew yn bygwth ailymddangos.

"Pasia'r lliain bwrdd Nel? Sa'n braf cael hyn wedi'i wneud cyn i bawb gyrraedd", meddai Nerys wrth rinsio'r llwch oddi ar ei chytleri gora.

"Ia, dim probs", mae'r soffa'n gyndyn o adael iddi ddadblannu ei phen ôl, ond mae hi'n llwyddo codi drwy duchan ryw ychydig, "lle ti'n ei gadw o?"

"Yr un lle mae o wedi bod erioed Nel", mae hi'n rhoi ennyd i'w mherch gofio cyn derbyn ei threch a dweud ei fod yn y ddresel ar yr ochr chwith, o dan y llieini sychu llestri sbâr.

Mae'r ddwy yn gafael ym mhob congl o'r cotwm gwyn ac yn ei chwifio cyn ei ollwng yn dwt dros y bwrdd pîn. Yn y distawrwydd rhwng dwy garol sy'n chwarae ar yr *Alexa*, teimla Nel yn chwithig. Y math o chwithdod ar ôl i sgwrs efo gyrrwr taxi redeg yn sych.

"ti di siarad efo Anti Catrin? Oedd ots ganddi dy fod di wedi methu'r cyngerdd neithiwr?"

"Naddo, ond nes i weld lluniau ar y *facebook* ac mi oedd hi'n edrych dan ei sang yna…. Byswn i heb allu mynd beth bynnag a finna cymaint ar ei hôl hi lenni. Fydd Catrin yn dallt."

Teimla Nerys yn hŷn lenni. Ella oherwydd bod Nel a Morus wedi symud allan bellach, neu ella oherwydd bod Meic wedi cwtogi ei ddyddiau gwaith. Ond mae'r Nadolig yma'n oerach a'r sach datws yn drymach rhywsut.

"Mae hynna'n f'atgoffa i! 'Nei di plîs ei roi o ar y *Facebook* mod i heb sgwennu cardiau 'dolig lenni? Dwi 'di ffonio pawb ar fy rhestr i sydd ddim ar y petha 'ma, ond mi fysa fo'n llai o ffaff na gorfod codi ffôn ar bawb, teimlo ryw euogrwydd, 'sw ni methu ffonio Jên fy nghyfneithar beth bynnag a finna heb yrru cardyn cydymdeimlo iddi ers iddi golli ei mham…"

"ia ia, dim probs, fyddai ddim dau funud, tyrd a dy ffôn yma." Er fod Nel erioed wedi deall angian ei mham i beidio pechu neb byth, mae hi'n falch o gael stopio gosod y bwrdd, ac yn llygadu'r soffa unwaith eto.

"O! lle dwi di rhoi'r blydi thing ddwytha dwa? Aros, caria di ymlaen mae o siŵr o fod fyny grisia"

Ffwrdd a Nerys gan godi'r twmpath o ddillad ar yr ail step oedd pawb arall wedi bod yn cerdded heibio drwy'r dydd. Tra ar y set olaf o gytleri, amai Nel mai ar y chwith oedd y ffyrc i fod. Gwna ei ffordd yn ôl rownd y bwrdd a chywiro ei chamgymeriad. Yna mae hi'n plygu napcynnau papur yn y ffordd mae ei mham yn rhyfeddu ato pob tro. Daw Nerys yn ôl i'r gegin ar gamau trwm.

"Sbia! Bron fi anghofio mod i 'di prynu rhein! Dydyn nhw ddim yn *scented* nag 'dyn? Ogla hwnna..." Cyn cael amsar i ymateb, mae 'na wic cannwyll yn cosi ffroenau Nel "...maen nhw'n iawn dydyn?" Ac mae'r canhwyllau'n cael eu gosod yng nghanol y bwrdd.

"Da wyt ti'n neud y *napkins* 'ma! Oes 'na ddigon i bawb gael un oes?"

"Oes dwi'n meddwl, mae'n baced newydd beth bynnag", doedd Nel ddim am drafferth atgoffa Nerys ei bod wedi anghofio pwrpas ei thrip fyny'r grisiau. Roedd hi wedi sylwi yn y newid yn ei mham ers yr haf. Ella mai Nel oedd wedi aeddfedu i fod yn fwy sylwgar, ond dydi Nerys ddim fel petai ganddi'r un rheolaeth dros y Nadolig ag oedd ganddi ers talwm.

“Lle mae Dad? ‘Dio ddim dal i gysgu?”

“Dwi’n ama ‘na gwylio ffilm gowbois mae o wsti, ddim cysgu”

“Ella bysa fo yn gallu mynd i nôl Taid? Mae gen ti ddigon ar dy blât mam, mi fyswn i’n cynnig tasa gen i gar.”

“Duw na, mae dy daid yn dipyn lond llaw di mynd, bechod, stryglo i fynd mewn i’r car yn ddiweddar, angan hwb”

“fysa Dad yn iawn siŵr, sbario chdi orfod gwneud bob dim!”

“mae o ‘di bod yn plicio i mi neithiwr chwara teg… tra o chdi lawr yn pentra”

Chwytha Nel yn drwm drwy’i thrwyn nes bod y napcyn yn ei llaw yn crynu.

“’Nath o ddim plicio’r llysiau “i chdi” naddo mam? Dwi’n siŵr ei fod o am fwyta cinio heddiw hefyd!”

Gwyddai Nerys yn well nag i daeru pan byddai Nel yn mynd ar ben rhyw geffyl ffeministaidd. Methu deall oedd Nerys pam bod ei merch mor flin, doedd hi di cael y fagwraeth ora? Roedd Nerys yn byw a bod yn tendian ar ei rhieni yn ei hoed hi, fel yna oedd y byd yn gweithio. Mae hi’n brathu ei thafod, ac yn mynd rownd y bwrdd yn sythu’r cyllyll a ffyrc oedd Nel wedi eu gosod.

“Jest meddwl dy fod di’n haeddu ychydig mwy o help rownd lle ‘ma ydw i mam, dyna i gyd. Mae dad adra fwy rŵan wedi’r cyfan, dydi?”

“Pwy wyt ti i bregethu Nel? Ti di bod yn ista ar dy ben ôl drwy’r bora! Rho’s saws afal yna mewn dysgl... mi fysa ti’n gallu fy helpu i hefyd!”

“Dwi wedi bod yn helpu, mi o ni wrthi drwy..”

“Mae hwnna llawar rhy fawr, defnyddia’r un uwch ei ben o”, mae Nel yn gwneud fel mae ei mham yn ddweud.

“’Nes i ddim stopio efo chdi ddoe mam, sori am fynd i weld fy ffrindiau tra mod i adra! Dy ddewis di ydi slafio yn fama’n ddiddiolch!”

Mae Nel wedi gwylltio rŵan ac mae hi’n gwybod bod ei geiriau yn frwnt, ond mae brandi’r noson gynt yn creu feis rownd ei phen.

“*Alexa*! *Volume* 1! A rhag ofn dy fod di heb sylwi, mae gen ti fab sydd ‘di bod a all-dayer ddoe a dal i chwyrnu’n ei wely.”

“Dos di ta, does ‘na ddim llawar ar ôl i wneud beth bynnag”

Tydi Nel ddim yn cymryd sylw ac yn parhau i agor bocs o gracyrs M&S a’u gosod, aur ac arian bob yn ail.

“Ti’n ‘neud parsnips flwyddyn yma?”

“Yndw, gan gofio amdanyn nhw tro yma de! Ti’n cofio’r flwyddyn ‘na?”

“Dyna pam dwi’n gofyn! Dwi ddim isio nhw fynd i wast eto!” Mae ysgwyddau’r ddwy yn ysgwyd bron mewn undod wrth chwerthin, “mi oeddan nhw fatha matchys du doeddan!”

“A dy Nain yn damnio!” Mae’r ddwy yn ei dyblau’n cofio fel oedd mam Nerys yn chwifio lliain wrth y *smoke detector* a phawb arall methu dal eu gwynt. Pwysa’r fam a’r ferch ar y bwrdd yn chwerthin nes i’r distawrwydd ddod rhyngddynt eto. “Fydd dim byd mor ddrwg â’r treiffl yna nes di chwaith.”

“Pa r’un?” Synnai Nel.

“Pan doedd ‘na ddim sieri’n tŷ, a ges di’r *bright idea* i ddefnyddio’r fodca ‘na o gefn y cwpwrdd!”

“Jin oedd o! Dim fodka wir!” Ceisia Nel gadw wyneb pwdlyd, ond mae’r atgof o’r pwdin methedig yn achosi iddi biffian chwerthin.

“Beth bynnag oedd o, doedd o ddim y fwytadwy”

Llenwa’r gegin efo sŵn chwerthin unwaith eto.

“Paid! Oedd Rachel yn dweud diwrnod o’r blaen, am bwdin ‘dolig ei mhodryb, mae hi’n ama mai bwyta hwnna yn chwech oed oedd y tro cynta iddi feddwi” mae Nel bron yn ei dagrau rŵan.

“Rachel?”

“Ia!  Oedd hi ‘di bwyta pob tamaid , a methu dalld pam bod y lle’n troi!” Dim ond Nel sy’n chwerthin erbyn hyn.

“Rachel sy’n byw yn y tŷ efo chdi?”

“Nage mam, ffrind gwaith ‘di Rachel”

“heb glywad chdi’n sôn amdani o’r blaen”

“ia, ella mod i heb sôn. Ti isio i mi danio rhein rŵan?”

“Na, gwell cadw nhw at wedyn. Mae’n dwt fel ‘na yndi?” gyda cham yn ôl mae’r ddwy yn gwerthfawrogi eu gwaith.

“Del iawn Mam! Mae’r twrci’n ogleuo’n dda hefyd, llwgu rŵan!”

“Diolch Nel” Bysa Nel yn taeru bod llygaid Nerys yn dyfrio. Bysa Nerys yn taeru ei bod wedi colli nabod ar ei mherch. “Grêt, cadwa lygaid ar bob dim, mi a i ‘wan, i nôl Taid.”

“Mi ddoi efo chdi os ti isio?”

“Na aros di, fyddai ddim yn hir.”